

## Tyfu Cymru: Taflen Cyngor Technegol Gweminar Rhwydwaith Llysiau – 22 Ebrill



### Sylwadau Cyffredinol

**Taenu gwrtaith** – Gall gwrtaith fod yn ffordd wych o wella strwythur pridd a rhoi maetholion i'r cnwd, yn arbennig mewn llysiau organig. Nid yw gwrtaith ceffylau mor ffrwythlon â thorllwythi ieir ond mae'n cynnwys llawer o nitrogen. Cyn defnyddio gwrtaith, mae'n well ei gompostio mewn tomenni sydd wedi'u gorchuddio ac sy'n cael eu troi'n aml pan fydd y tymheredd yn cyrraedd 60°C. Bydd gorchuddio'r tomenni'n atal y maetholion rhag cael eu trwytholchi gan law, a bydd compostio effeithiol yn lladd unrhyw hadau chwyn fel na fyddwch yn eu lledaenu ar eich tir. Efallai dylech chwilio am unrhyw weddillion chwynladdwyr – dylech hau rhywfaint o bys neu ffa mewn padell a chwilio am egin cyn eu hau ar eich tir.

**Dyfrhau** – Mae'r tywydd sych parhaus yn golygu efallai bydd angen dyfrhau, yn arbennig ar drawsblaniadau diweddar. Pibelli dwr sy'n diferu a dyfrhad sy'n llifo'n araf yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddyfrhau'r pridd yn araf, ond byddwch yn ofalus ynghylch pryd rydych chi'n dyfrhau – gallai haen uchaf y pridd fod yn sych ond yn oer ac yn wlyb yn is i lawr. Bydd dyfrhad cynnar yn helpu'r trawsblaniadau wrth iddynt ddatblygu strwythur gwreiddiau ac wedyn trochi dŵr o lefelau dyfnach yn y pridd wrth iddi sychu yn ddiweddarach yn y tymor.

**Rheoli Chwyn** – Dylech flaenoriaethu rheoli chwyn, yn arbennig cyn plannu neu wrth sefydlu cnydau. Dylid rheoli clytiau glaswelltog/chwynnog gan eu bod yn gallu bod yn gronfa ar gyfer pysgod croen lledr (*leather jackets*) – os ydych yn gweld difrod ar eich cnydau, mae'n debygol mai oedolion y llynedd sydd wedi achosi hyn. Gall marchwellt fod yn broblem benodol, ond mae'n well ei dorri a'i godi yn aml i gyfyngu ar y tyfiant. Yn ddelfrydol, mae peiriannau danheddog hen ffasiwn y gwanwyn yn cael eu defnyddio gan eu bod yn tynnu'r rhisomau i fyny. Dylech wneud hyn ar ddechrau cyfnod sych. Ar ôl iddo weithio, dylech adael i'r rhisomau sydd ar yr wyneb sychu. Pan neu os bydd y marchwellt yn dychwelyd, gwnewch hyn eto. Mae'n well plannu cnydau sydd â chylchredau byr, fel salad, mewn ardaloedd ger gwelyau marchwellt gan y bydd yn haws eu rheoli yn hytrach na chnydau sy'n para blwyddyn neu gnydau lluosflwydd.

**Cynllunio'r cylchdroadau** – Gall cynllunio cylchdroadau eich helpu chi i gael yr enillion mwyaf posibl ar eich tir. Mae'n well cynllunio'r cnydau mwyaf llwglyd yn gynharach yn y cylchdroad – tatws a chorn-india – ar ôl i chi wrteithio. Gallwch gynllunio yn ôl grŵp teulu i leihau'r risg o afiechydon, ond byddai'n well cynllunio yn ôl yr amser cynaeafu. Ceisiwch blannu cnydau sy'n cael eu cynaeafu tua'r un pryd yn yr un ardaloedd o'r tir er mwyn i'r cnydau weithio ac i wneud y cynaeafu'n fwy effeithlon. Hefyd, ystyriwch ddwysedd plannu a gwneud yn siŵr eich bod yn cynllunio ar gyfer cyfraddau hadau neu drawsblaniadau addas er mwyn cynyddu'r nifer y gallwch ei gynaeafu.

**Rhwyllau** – Wrth blannu y tu allan, ystyriwch blannu o dan rhwyll denau lle bo'n bosibl fel *WonderMesh*, *Agromesh* ac *Enviromesh*. Mae'r rhain yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn i atal difrod gan blâu (ee chwilod naid, pryfed moron) ynghyd ag adar, cwingod a cheirw. Hefyd, bydd y rhwyllau'n creu microhinsawdd, gan gynhesu amgylchedd llysiau sydd wedi'u plannu a bydd yn cyflymu eginiaidau a thwf cynnar. Byddai'n well ymarfer gosod y rhwyll i lawr wrth ymyl y cnwd cyn plannu ac yna ei thynnu dros y cnwd wrth i chi blannu. Gellir naill ai tyrchu'r rhwyll i mewn i'r pridd neu fe allwch ei dal i lawr gyda bagiau tywod. Dylid gadael y rhwyll yn ei lle tan y cynhaeaf



Chwilen naid ar gnydau bresych

er mwyn osgoi difrod gan blâu. Dylai'r cnwd allu cefnogi'r rhwyll, ac er y gallwch golli ambell i blanhigyn wrth osod y rhwyll dros y cnwd, mae hynny'n well na'r difrod gan blâu yr ydych yn ei osgoi.

### Seleriac

Gall seleriac fod yn gnwd da i'w dyfu ar gyfer storio oer – gallwch drefnu i'w gynaeafu pan fydd y gwreiddyn tua maint pêl ruddem ym mis Hydref/Tachwedd, ac yna ei storio mewn lle oer a llaith er mwyn ei werthu y gwanwyn nesaf os bydd angen. Mae angen tymor hir ar seleriac er mwyn cyrraedd maint da, argymhellir i chi brynu planhigion F1 cymysgryw gan luosogwr i roi dechrau da i'ch cnwd. Mae seleriac a seleri mewn perygl o *Septoria* sy'n achosi patsys clorotig ar y dail, sy'n troi'n necrotig. Gall smotiau ar ddail fod yn rhybudd cynnar ac mae'n well defnyddio triniaeth ffwngleiddiad (ee Amistar – EAMU 2198/19) pan fyddant yn ymddangos gyntaf. Ar gyfer tyfwyr organig, gallai defnyddio deucarbonad fod yn effeithiol, a gallai bwyd deiliol eu helpu i wrthsefyll yr afiechyd.

Symptomau o *Septoria* ar ddail seleri.



### Garlleg

Gall pydredd gwyn mewn nionod sy'n cael ei achosi gan *Sclerotium* ddatblygu tua diwedd y gwanwyn a dechrau'r haf, yn arbennig mewn nionod bylbydd wedi'u plannu yn yr hydref. Gall rheoli pydredd gwyn fod yn anodd, hyd yn oed gyda thriniaethau ffwngleiddiaid confensiynol. Mae hylendid da mewn cynydau'n allweddol – byddwch yn ofalus wrth dynnu'r gweddillion heintus i osgoi halogi cynydau iach. Gall *Sclerotia* sy'n cael ei gynhyrchu gan y ffyngau aros yn y pridd am nifer o flynyddoedd. Er hyn, mae rhai yn dweud y gallai gwasgaru gwastraff nionod dros bridd sydd wedi'i heintio rhywfaint achosi i'r *sclerotia* egino a marw heb gnwd i'w heintio.



### Moron

Wrth blannu moron a phannas, gellir defnyddio Emerger (Bayer) fel chwynladdwr cyn ac ar ôl ymddangosiad – gellir ei ddefnyddio mewn cynydau moron, seleriac, pannas, cennin a nionyn salad o dan EAMU 1100/2020, 1101/2020 a 1102/2020. Argymhellir i chi osgoi plannu seleri/seleriac yn agos at gnydau o foron – mae'r rhain yn denu pryfed moron ac yn gallu gweithredu fel cronfa ar gyfer y pla yma, gan gynyddu'r risg o ddifrod i'ch cynydau moron – a dylech geisio gwahanu cynydau newydd rhag y rheini sydd wedi'u gaeafu os rydych yn ceisio cael cyflenwad drwy gydol y flwyddyn. Gall Hallmark (lambda-cyhalothrin) fod yn effeithiol ar gyfer rheoli confensiynol.



Mae fforchiadau mewn moron a phannas yn cael eu hachosi gan amrywiaeth o nematodau sy'n byw'n rhydd megis nematodau gwreiddiau cwta (*Trichodorus/Paratrichodorus*) y nematodau nodwydd (*Longidorus*). Weithiau gellir cyfyngu ar y defnydd o nematodau ond defnyddir gronynnau Vydate mewn rhai systemau nad

ydynt yn organig a gall olew garleg fod yn opsiwn ar gyfer planhigion organig os y'i defnyddir wrth blannu. Bydd angen i chi ei roi yn agos at y hadau.

### **Asparagws**

Mae cynydu asparagws yn boblogaidd iawn ymhlith tyfwyr yn Nghymru ac mewn systemau organig. Mae ei gnydau'n fach (tua 2 dunnell yr acer) ond mae'n cyflawni pris uchel yn y farchnad (£12 pob cilogram), a fydd yn gwerthu'n dda mewn siopau fferm neu mewn bocsys llysiau. Mae'n gnwd da i lenwi'r bwlch rhwng cynydu'r gaeaf sy'n gorffen tyfu a chnydau'r gwanwyn sy'n dechrau tyfu. Gellir plannu coronau asparagws yn y gwanwyn, 15cm i mewn i dir sydd wedi'i aredig, tua 25 mil pob hectar (er y gellir plannu rhai mathau mewn lleithder uwch). Mae rheoli chwyn yn bwysig, yn arbennig mewn cynydu sy'n sefydlu – darllenwch daflen ffeithiau Tyfu Cymru am asparagws i gael argymhellion. Nid yw asparagws yn dioddef o unrhyw ddifrod sylweddol gan blâu nac afiechydon. Mae gwllithod yn gallu bod yn broblem, gyda gweithgarwch tanddaearol yn achosi i'r coesau'n tyfu'n gam. Gellir rheoli gwllithod gyda ffosffad fferig, neu wrth ddefnyddio nematodau (*Nemaslug*) ar gyfradd o 1000L pob hectar ar nosweithiau gwlyb. Hefyd, gall barrug achosi i goesau blygu, a gwelir y cynhaeaf gorau pan fydd y tywydd yn cynhesu tua mis Mai.

### **Bresych**

Erbyn hyn, dylech fod yn hau ar gyfer cynydu gaeaf o Fresych. Gall dyfrhau fod yn bwysig wrth sefydlu trawsblaniadau, yn arbennig ar bridd ysgafnach, a dylech chwilio am ddifrod gwynt. Mae'n rhaid talu sylw gofalus i reoli chwyn, ac wrth i symptomau cynnar o afiechydon barhau (ee smotiau cylchog, smotiau tywyll a golau ar y dail), bydd tywydd sych yn arafu'r haint a'r datblygiad ymhellach. Hefyd, dylech fonitro unrhyw ddifrod gan wllithod yn agos ar ôl glaw. Gellir plannu rhai amrywiaethau tebyg i *tenderstem* drwy gydol y flwyddyn (ee *Montebello*) ac mae'r rhain yn rhoi cynydu da ac yn gallu cael eu gwerthu am bris uchel.

### **Rhiwbob**

Mae rhiwbob yn gnwd gwydn arall sy'n rhoi cynydu da am dros 5 mlynedd ar ôl eu plannu. Gellir cynaeafu'r rhiwbob *Timperly Early* rhwng mis Mawrth a mis Hydref, a bydd yn ymateb yn dda os caiff ei fwydo ac os bydd y dail cynnar yn cael eu torri. Mae bwydo nitrogen yn gynnar yn y tymor yn bwysig iawn ar gyfer cynhaeaf da y tymor yma. Mae'n allweddol rheoli chwyn yn gynnar yn y tymor ymysg cynydu o rhiwbob – ystyriwch ddefnyddio Dow Shield 400 (EAMU 2582/19) a Flexidor (2598/19) sy'n gweithio'n effeithiol iawn yn erbyn amrywiaeth o chwyn llydanddail. Mae rhiwbob yn blodeuo weithiau ond mae'r rheswm pam yn aneglur – mae'n well tynnu'r rhain cyn gynted ag y byddwch yn eu gweld yn eich cynydu.

### **Pwmpen a Sgwosh**

Dylech ystyried archebu pwmpenni a sgwosh gan luosogwyr nawr er mwyn eu plannu'n hwyrach yn y flwyddyn. Hefyd, byddwch angen ystyried creu gwely o bridd ychydig wythnosau cyn hau er mwyn cael gwared ag unrhyw chwyn – darllenwch daflen ffeithiau Tyfu Cymru am chwynladdwyr pwmpenni i gael cyngor ynghylch sut i reoli chwyn. Gall dewis amrywiaethau'n ofalus fod yn bwysig ar gyfer cynyddu eich cynydu. Bydd sgwosh yn cadw'n dda os caiff ei gadw'n sych (a heb ei oeri) drwy'r gaeaf hyd at y gwanwyn, gan roi ffenestr marchnata hir. Efallai yr hoffech ystyried cyflwyno mathau amrywiol o sgwosh i'ch cwsmeriaid. Mae cyflenwyr fel CN Seeds yn cynnig amrywiaeth o F1 groesryw. Mae'r sgwosh Amoro, dosbarth kabocha yn dda ac yn cynhyrchu sawl sgwosh ar un planhigyn mewn rhai safleoedd. Mae gan y Crown Prince groen gwydn glas ac mae'n para'n dda. Peidiwch â storio Pwmpenni mewn tymheredd isel, gan nad ydynt yn ei hoffi ac mae'n well osgoi eu golchi wrth eu codi o'r caeau i osgoi pydredd.

### **IPDM mewn Letys**

Dylid dechrau rhaglenni IPDM yn gynnar yn y gwanwyn – efallai yr hoffech ystyried cymysgedd parasitaidd o bryfed gleision a'i roi pob pythefnos. Mae'n gallu cynnig lefel dda o reolaeth ar ôl sefydlu. Mae angen cael ei amddiffyn mewn cynydu i sicrhau'r llwyddiant gorau posibl.

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio'r holl gemegau amddiffyn cnydau yn unol ag argymhellion y labeli, a dylech eu darllen cyn eu chwistrellu. Efallai na fydd gan rai o'r plaladdwyr y sonnir amdanynt yn y nodiadau hyn argymhellion ar eu labeli ynghylch sut i'w defnyddio ar gnydau o bwmpenni ond fe'u caniateir drwy Estyniad Awdurdodi ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'Y Trefniadau Tymor Hir Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, mae'r defnyddiwr yn defnyddio'r plaladdwyr ar eu risg eu hun ac nid yw Tyfu Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod sy'n cael ei achosi o ganlyniad i'w ddefnyddio. Mae'r cyfeiriadau at y gymeradwyaeth a'r EAMU sydd ar y labeli ar gyfer defnyddio plaladdwyr mewn cnydau o bwmpenni yn gywir ar yr adeg y cafodd y labeli eu hysgrifennu. Gall y rhain newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl unrhyw bryd. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio'r gymeradwyaeth cyn defnyddio'r plaladdwr. Os oes gan dyfwr unrhyw amheuaeth, dylent ofyn am gyngor gan gynghorydd cymwysedig BASIS – mae hyn ar gael am ddim ar gyfer tyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost neu dros y ffôn ar gael hefyd.